



LLWYBR BR@

Tolo
M@rganwg

VALE OF GLAM@RGAN TRAIL



6.5M; 10.5KM

7 SITES TO VISIT / 7 SAFLE I YMWELD A NHW



ARCHITECT OF THE WELSH NATION

Iolo Morganwg (1747-1826) was an architect of the Welsh nation. He is renowned for his leading role in the eighteenth-century cultural renaissance of Wales. He was the first to propose that Wales should have its own national institutions: a Library, and an Academy or a Folk Museum. His legacy as one of the founders of Welsh national consciousness is alive today.

His creation, the Gorsedd of the Bards of the Island of Britain, was in essence the first Welsh national cultural institution. It was designed to raise the profile of Welsh culture and language, and foster a sense of pride in the Welsh people for their history as well as to promote the spirit of political radicalism. *Iolo's* creation has altered over the years, but is now integral to the National Eisteddfod of Wales, Wales's biggest cultural festival.

Born *Edward Williams*, but better known by his bardic name *Iolo Morganwg*, he was a **stonemason** by trade, as well as being a **romantic poet**, **political radical**, a **humanitarian** and the most extraordinary and colourful character ever to have lived in the Vale of Glamorgan.

Arguably the **best-read man in Wales** in his day, this largely **self-taught** man gathered an extraordinary fund of knowledge about language, literature, music, theology, philosophy, politics, religion, geology, agriculture and horticulture. However, he was also a **dreamer**, a **laudanum addict** and a **literary and historical forger**.

He was the Vale of Glamorgan's greatest advocate. He referred to it as '**Britain's Paradise**', but he was also a citizen of the world who was inspired by the revolutions in America and France.

He styled himself '**Bard of Liberty**' and campaigned stoutly against the slave trade and war.

There has never been anyone like him in Wales and he is one of Glamorgan's most famous and intriguing sons.

Walk in Iolo's footsteps to learn more about this extraordinary figure...

SAER CENEDL Y CYMRY

Roedd Edward Williams (1747–1826), neu *Iolo Morganwg*, a rhoi iddo ei enw barddol, yn un o seiri cenedl y Cymry. Mae'n enwog am ei ran flaenllaw yn nadeni diwylliannol Cymru yn y ddeunawfed ganrif. Ef oedd y cyntaf i argymhell y dylai fod gan Gymru ei sefydliadau cenedlaethol ei hun: Llyfrgell, ac Academi neu Amgueddfa Werin, ac mae ei etifeddiaeth fel un o sylfaenwyr ymwybyddiaeth genedlaethol Cymru yn fyw hyd heddiw.

Ei greadigaeth ef, Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, oedd sefydliad diwylliannol cenedlaethol cyntaf Cymru. Nod yr Orsedd oedd codi proffil diwylliant ac iaith Cymru a meithrin ymdeimlad o falchder ymhlith y Cymry yn eu hanes, yn ogystal â hybu ysbryd radicaliaeth wleidyddol. Mae creadigaeth *Iolo* wedi newid dros y blynyddoedd, ond mae bellach yn rhan annatod o'r Eisteddfod Genedlaethol, gŵyl ddiwylliannol fwyaf Cymru.

Saer maen oedd *Iolo* wrth ei waith ac roedd hefyd yn *fardd rhamantaidd*, yn *radical gwleidyddol* ac yn *ddyngarwr*. Ef oedd y cymeriad mwyaf lliwgar a fu'n byw ym Mro Morgannwg erioed.

Gellid dadlau mai *Iolo* oedd *ysgolhaig mwyaf Cymru* yn ei ddydd, er iddo'i *addysgu ei hun* i raddau helaeth. Llwyddodd i gasglu cyfoeth o wybodaeth am iaith, llenyddiaeth, cerddoriaeth, diwinyddiaeth, athroniaeth, gwleidyddiaeth, crefydd, daeareg, amaethyddiaeth a garddwriaeth. Ond roedd hefyd yn *freuddwydiwr*, yn *gaeth i lodnwm* ac yn *ffugiwr llenyddol a hanesyddol*.

Ef oedd hyrwyddwr mwyaf Bro Morgannwg. Cyfeiriai ati fel '*paradwys tir Prydain*', ond roedd hefyd yn ddinesydd y byd ac fe'i hysbrydolwyd gan y chwyldroadau yn America a Ffrainc. Fe'i galwai ei hun yn '*Fardd Rhyddid*' ac ymgyrchodd yn frwd yn erbyn rhyfel a'r fasnach mewn caethweision.

Ni welwyd ei debyg yng Nghymru ac mae'n un o feibion enwocaf a mwyaf diddorol Morgannwg.

Dilynwch ôl troed Iolo i ddysgu mwy am y cymeriad rhyfeddol hwn...

THIS TRAIL HAS BEEN CREATED TO CELEBRATE ONE OF THE VALE OF GLAMORGAN'S MOST COLOURFUL CHARACTERS WHILST GUIDING YOU AROUND THE BEAUTIFUL VALE. THE TRAIL BOOKLET PROVIDES YOU WITH A GUIDE FOR:

IOLO'S CIRCULAR WALK:

Starting at Old Hall Gardens, Cowbridge, this 6.5 mile / 10.5km walk (or shorter version 4.7 miles / 7.5 km) includes sites of interest relating to *Iolo Morganwg* so that you have a taste of the many sides of his life and character as you walk along.

Take out the OS map in the back which includes directions for walkers and highlights points of interest linking them to themes in *Iolo's* life .

Take this booklet with you to provide more information on each of these points. The numbering / colouring on the map correlate to this booklet.

IOLO'S WIDER TRAIL:

The wider trail takes you on a journey to other beautiful sites relating to *Iolo Morganwg* within the wider Vale of Glamorgan.

KEY SITES AND THEMES INCLUDE:

- 1 **Old Hall Gardens Start**
- 2 **Physic Garden** The Opium Eater
- 3 **Holy Cross Church** The Stonemason and Word Collector
- 4 **Costa Coffee** The Radical and Anti-slave Trade Campaigner
- 5 **Cowbridge Town Hall** The Builder and Architect
- 6 **Site of Scientific Special Interest** The Agricultural Commentator and Farmer
- 7 **Stalling Down** The Architect of a Nation and the Gorsedd of the Bards
- 8 **The Clump** The Humanitarian
- 9 **The Bush Inn** The Poet and Forger
- 10 **Llanblethian / St Quentin's Castle**
- 11 **The Eagles Academy** His Children
- 12 **The Bear Hotel** The Cowbridge Drinkers and Collector of Songs

- 1 **Llantwit Major** The Archaeologist
- 2 **Boverton Place** His Mother's Influence
- 3 **Aberthaw, Old Harbour / The Leys** The Trader
- 4 **Flemingston** The Vale's Greatest Advocate
- 5 **St Mary Church** Iolo and Love
- 6 **Beaupré Castle** The Romantic
- 7 **Llancafán and Pen-Onn**

PWRPAS Y DAITH HON YW EICH TYWYS O GWMPAS Y FRO GAN DDATHLU BYWYD UN O'I CHYMERIADAU MWYAF LLIWGAR YR UN PRYD. MAE LLYFRYN Y DAITH YN RHOI CYFARWYDDIADAU AR GYFER Y CANLYNOL:

CYLCHDAITH IOLO:

Mae'r daith gerdded 6.5 milltir / 10.5km hon (neu'r fersiwn byrrach 4.7 milltir / 7.5 km) yn cychwyn yng Ngerddi'r Hen Neuadd, Y Bont-faen, ac yn cynnwys manau o ddiddordeb yn ymwneud ag *Iolo Morganwg*, er mwyn i chi gael blas ar sawl agwedd ar ei fywyd a'i gymeriad wrth gerdded.

Mae'r map Arolwg Ordnans yn y cefn yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer cerddwyr ac yn amlygu manau o ddiddordeb, gan eu cysylltu â themâu ym mywyd *Iolo*.

Ewch â'r llyfryn hwn gyda chi er mwyn cael rhagor o wybodaeth am bob un o'r manau hyn. Mae'r rhifau / lliwiau ar y map yn cyfateb i'r llyfryn hwn.

TAITH EHangach IOLO:

Mae'r daith ehangach yn eich tywys i safleoedd hyfryd eraill yn ymwneud ag *Iolo Morganwg* yn ardal ehangach Bro Morgannwg.

MAE'R MANAU A'R THEMÂU ALLWEDDOL Y N CYNWYS:

- 1 Gerddi'r Hen Neuadd Man Cychwyn
- 2 Yr Ardd Berlysiau Y Bwytaŵr Opiwm
- 3 Eglwys y Groes Sanctaidd Y Saer Maen a Chasglwr Geiriau
- 4 Costa Coffee Y Radical a'r Ymgyrchwr Gwrth-gaethwasiaeth
- 5 Neuadd y Dref, Y Bont-faen Yr Adeiladwr a'r Pensaer
- 6 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Y Sylwebydd ar Amaeth a'r Ffermwr
- 7 Bryn Owain Saer Cenedl a Gorsedd y Beirdd
- 8 Y Clwmp Y Dyngarwr
- 9 Tafarn y Bush Inn Y Bardd a'r Ffugiwr
- 10 Castell Sain Quentin / Llanfleiddan
- 11 Academi'r Eagles Ei Blant
- 12 Gwesty'r Bear Yfwyr Y Bont-faen a Chasglwr Caneuon


- 1 Llanilltud Fawr Yr Archaeolegydd
- 2 Plasty Trebefered Dylanwad ei Fam
- 3 Aberddawan, Yr Hen Harbwr / Y Traeth Y Masnachwr
- 4 Trefflemin Hyrwyddwr Mwyaf y Fro
- 5 Llan-fair Iolo a Chariad
- 6 Castell y Bewpwr Y Rhamantydd
- 7 Llancarfan a Phennon

IOLO'S CIRCULAR WALK

See the OS map in the back of the booklet for route and walking directions.

CYLCHDAITH IOLO:


Gweler y map AO yng nghefn y llyfryn ar gyfer y llwybr a chyfarwyddiadau cerdded.



View from the Clump / Yr olygfa o'r Clwmp


Starting at Old Hall Gardens, Cowbridge, this 6.5 mile / 10.5km walk (or shorter version 4.7 miles / 7.5km), takes you through historic Cowbridge, countryside fields, woodland paths and enjoys a reasonably level terrain, though it includes several stiles, and there is one fairly long moderate climb needed to ascend onto Stalling Down and then up to the Clump. Both offer a vantage point for glorious views.

Mae'r daith gerdded 6.5 milltir o hyd hon (neu'r fersiwn byrrach, 4.7 milltir) yn cychwyn yng Ngerddi'r Hen Neuadd, Y Bont-faen. Mae'n eich tywys drwy'r Bont-faen hanesyddol, a chaeau cefn gwlad a llwybrau coediog gan ddilyn tir cymharol wastad, er bod yn rhaid dringo un llethr cymedrol ond gweddol hir i gyrraedd Bryn Owain ac yna i fyny i'r Clwmp. Mae'r ddau'n fannau perffaith i fwynhau golygfeydd godidog.



New Beaupré Woods nr St Hilary /
Coedwig New Beaupré ger Saint Hilari





Illustrated map of the Iolo Morganwg circular walk / Map darluniedig o gylchdaith Iolo Morganwg

OLD HALL GARDENS STARTING POINT 1

You are standing in the very heart of historic Cowbridge. The town walls date from 1254. The Edmondes family moved into Old Hall in Iolo's time (from 1750) and established their extensive gardens of which the Physic Garden was one.

The path that you will follow to the Physic Garden is the one once used by the family to walk to Holy Cross Church. The pond in front of you was originally a sunken garden. *See the lectern for more information.*

GERDDI'R HEN NEUADD MAN CYCHWYN 1

Rydych yn sefyll yng nghalon tref hanesyddol Y Bont-faen. Mae muriau'r dref yn dyddio o 1254. Symudodd y teulu Edmondes i'r Hen Neuadd yn nyddiau Iolo (1750) gan sefydlu eu gerddi helaeth.

Roedd yr Ardd Berlysiau yn un ohonynt, a'r llwybr y byddwch yn ei ddilyn i'r Ardd Berlysiau oedd yr un yr arferai'r teulu ei ddefnyddio i gerdded i Eglwys y Groes Sanctaidd. Gardd isel oedd y pwll o'ch blaen yn wreiddiol. *Mae mwy o wybodaeth ar y ddarllenfa.*

PHYSIC GARDEN THE OPIUM EATER 2

Like many people in his day, *Iolo* took copious doses of laudanum, a drink made from 10% opium from poppies and 90% alcohol. He also relied on a great variety of therapeutic herbs and medicines, many of which can be found in this garden. He was plagued by ill health, especially asthma, and since he did not trust and could not afford local doctors he dosed himself with beneficial remedies and pain-killers.

Over his long life *Iolo* became addicted to laudanum, which both stimulated and confused his imagination. He often confessed to being prone to build castles in the air or spin ropes of sand. In an anthology of poetry published in 1794 he included an ode '*To Laudanum*'.

A verse from his ode 'To Laudanum' can be seen on the left wall next to the doorway as you enter the garden.




HOLY CROSS CHURCH THE STONEMASON AND COLLECTOR OF WORDS 3

Iolo followed his father into stonemasonry and served his apprenticeship under his watchful eye. He claimed to have learned the alphabet by watching his father inscribe gravestones and in time he became an extremely accomplished craftsman.

The commemoration plaque in the chancel to Daniel and William Walters may be his work. Their father, the Revd John Walters, the famous lexicographer whose great English-Welsh Dictionary was printed in Cowbridge (1770 – 85), taught *Iolo* to cherish the Welsh language and encouraged his fascination with Welsh words and dialects, which he collected wherever he went.

By 1806 his collection of Welsh words had swollen to 25,000 words, and he boasted that he had **'rambled all over Wales with all my ears open to every local word, idiom, peculiarity of pronunciation and'**



Holy Cross Church / Eglwys y Groes Sanctaidd



Physic Garden / Yr Ardd Berlysiâu

He often confessed to being prone to build castles in the air or spin ropes of sand.

Cyfaddefai'n aml ei fod yn dueddol o godi cestyll yn yr awyr neu freuddwydio breuddwydion gwrach.

YR ARDD BERLYSIAU Y BWYTÄWR OPIWM 2

Fel llawer o bobl yn ei ddydd, roedd *lolo*'n cymryd llawer iawn o lodnwm – diod sy'n cynnwys 10% o opiwm o flodau'r pabi a 90% o alcohol. Roedd hefyd yn dibynnu ar amrywiaeth eang o berlysiâu a meddyginiaethau therapiwtig, a gellir dod o hyd i lawer ohonynt yn yr ardd hon. Fe'i plagiwyd gan afiechyd, ac asthma yn arbennig, a chan nad oedd yn ymddiried mewn meddygon lleol nac yn gallu eu fforddio, byddai'n ceisio'i wella'i hun â meddyginiaethau llesol a chyffuriau lleddfu poen.

Yn ystod ei fywyd hir, daeth *lolo*'n gaeth i lodnwm, a oedd yn cyffroi ac yn drysu ei ddychymyg. Cyfaddefai'n aml ei fod yn dueddol o godi cestyll yn yr awyr neu freuddwydio breuddwydion gwrach. Cafodd ei gerdd '*To Laudanum*' ei chynnwys mewn detholiad o gerddi a gyhoeddwyd ym 1794.

Gellir gweld pennill o'i gerdd 'To Laudanum' ar y wal chwith nesaf at y porth wrth i chi fynd i mewn i'r ardd.

EGLWYS Y GROES SANCTAIDD Y SAER MAEN A CHASGLWR GEIRIAU 3

Dysgodd *lolo* ei grefft fel saer maen gan ei dad a chyflawnodd ei brentisiaeth dan ei lygaid craff. Honnodd iddo ddysgu'r wyddor trwy wlyio ei dad yn arysgrifennu cerrig beddi ac o dipyn i beth, datblygodd yn grefftwr hynod fedrus.

Mae'n bosibl mai ei waith ef yw'r plac coffa i Daniel a William Walters yn y gangell. Eu tad oedd y Parchedig John Walters, y geiriadurwr enwog yr argraffwyd ei Eiriadur Saesneg-Cymraeg rhagorol yn Y Bont-faen (1770 – 85). Dysgwyd *lolo* gan Walters i ymfalchio yn yr iaith Gymraeg a symbylwyd ef i ymddiddori mewn geiriau a thafodieithoedd Cymraeg, gan eu casglu ble bynnag yr âi.

Erbyn 1806, roedd ei gasgliad o eiriau Cymraeg wedi chwyddo i 25,000 o eiriau, a broliai ei fod wedi crwydro Cymru benbaladr yn clustfeinio ar eiriau ac idiomau ac yn sylwi ar nodweddion hynod o ran ynganiad a chystrawen.

...the first fair trade shop in Wales.

...siop masnach deg gyntaf Cymru.



Fig 1: Memorial plaque outside Iolo's old shop / Plac coffa y tu allan i siop Iolo

COSTA COFFEE

THE RADICAL AND ANTI-SLAVE TRADE CAMPAIGNER 4

This is the first fair-trade shop in Wales. When *Iolo* returned from London in 1795 he set up a shop here, selling radical books like Tom Paine's *Rights of Man*, stationery, liberty hats and fair trade produce, including tea and coffee. He boycotted tainted produce from the Caribbean, and posted a notice in the window: 'East India sweets: uncontaminated with human gore'.

By 1797, due to lack of money and persecution, the shop had closed, but *Iolo* continued to declaim against the slave trade and rejoiced when it was abolished in 1807.

Memorial Plaque (fig 1) – the symbol \parallel at the top of the plaque is what *Iolo* called the 'mystic mark'. It symbolises the three sunrays cast by the Gorsedd's stones (fig 2) which strike the central logan stone on the longest and shortest day of the year. The beams represent Love, Justice and Truth. *Iolo* first printed it on the title-page of his Welsh collection of psalms and hymns in 1812. Today it is recognised as the Gorsedd symbol.

The last line on the plaque is *Iolo*'s slogan '*The Truth Against the World*', written in his Bardic Alphabet which he claimed was the alphabet of the Welsh bards. *Iolo* had read Paul Henri Mallet's *Northern Antiquities* (1770), which argued that the alleged barbarity of the Celtic people was due to their illiteracy and the absence of an indigenous alphabet. This, like many of his inventions, was therefore a direct response to these claims. He used it as proof of early literacy and therefore civility amongst the Welsh (fig 3).

Call in to browse through books published on *Iolo*. Read the poem he wrote to promote the shop and the translation of the commemorative plaque outside. For a 10% discount to those on the trail, quote 'fair-trade'.

COSTA COFFEE

Y RADICAL A'R YMGYRCHWR GWRTH-
GAETHWASIAETH 4

Hon yw siop masnach deg gyntaf Cymru. Agorodd *lolo*'r siop hon pan ddychwelodd o Lundain ym 1795, gan werthu llyfrau radical fel *Rights of Man* gan Tom Paine, deunydd ysgrifennu, hetiau rhyddid a chynnyrch masnach deg, gan gynnwys te a coffi. Gwrthodai werthu cynhyrchion amheus o'r Caribî, a rhoddodd nodyn yn y ffenestr: 'East India sweets: uncontaminated with human gore'.

Roedd y siop wedi cau erbyn 1797 oherwydd diffyg arian ac erledigaeth, ond parhaodd *lolo* i draethu yn erbyn y fasnach mewn caethweision ac roedd yn gorfoleddu pan gafodd ei diddymu ym 1807.

Plac Coffa (ffig 1) – yr hyn a elwid gan *lolo* yn '**nod cyfrin**' yw'r symbol ar ben y plac /I/. Mae'n symbol o'r tri phelydryn sy'n cael eu bwrw gan feini'r Orsedd (gweler y diagram isod) ac sy'n taro'r maen llog canolog ar ddiwrnod hiraf a diwrnod byrraf y flwyddyn (ffig 2). Mae'r pelydrau'n cynrychioli Cariad, Cyfiawnder a Gwirionedd. Fe'i hargraffwyd gyntaf gan *lolo* ar dudalen deitl ei gasgliad o salmau ac emynau ym 1812. Fe'i hadnabyddir heddiw fel symbol yr Orsedd.

Arwyddair *lolo*, '**Y Gwir yn Erbyn y Byd**', yw'r llinell olaf ar y plac, wedi'i hysgrifennu yn ei Wyddor Farddol. Honnai mai hon oedd gwyddor beirdd Cymru. Roedd *lolo* wedi darllen y llyfr *Northern Antiquities* gan Paul Henri Mallet (1770), a oedd yn dadlau mai diffyg llythrennedd a diffyg gwyddor frodorol oedd yn gyfrifol am farbareiddwch honedig y bobloedd Celtaidd. Ymateb uniongyrchol i'r honiadau hynny oedd yr wyddor hon felly, fel llawer o'i ddyfeisiadau. Fe'i defnyddiwyd ganddo fel prawf o lythrennedd cynnar ac felly o warineb ymhlith y Cymry (ffig 3).



Fig / Ffig 2



Fig / Ffig 3. *lolo*'s 'Peithynen' *lolo*'

Galwch i mewn i bori trwy'r llyfrau a gyhoeddwyd ar *lolo*. Darllenwch y gerdd a ysgrifennodd i hynwyddo'r siop, a'r cyfieithiad o'r plac coffa y tu allan. Gall y rhai sydd ar y daith gerdded ddefnyddio'r geiriau 'fair-trade' i hawlio gostyngiad o 10%.

COWBRIDGE TOWN HALL THE BUILDER AND ARCHITECT **5**



*lolo's extension plan for the Town Hall /
Cynllun lolo ar gyfer Neuadd y Dref**

In 1782 *lolo* drew up a number of striking designs for an extension to Cowbridge Town Hall. His scheme was not adopted, but he remained deeply interested in surveying, architecture and building. There are several examples in churches throughout the Vale of his special skills as a marble-mason.

lolo used the Cowbridge Book Club to distribute theological and political literature, but many people reckoned that he was only interested in spreading seditious ideas and viewed him with great suspicion. For his part, *lolo* reckoned that the inhabitants of Cowbridge had acquired '**much of the monkey character, with a smack of the fox, sly, cunning and thievish**'.

The Town Hall is home to the Cowbridge Museum (open on the 1st and 3rd Saturday of the month) and its old prisoner cells have been converted into exhibition areas. It includes information on lolo and film footage on lolo from the BBC's History of Wales series.

*Y neuadd yw cartref
Amgueddfa'r Bont-faen
(sydd ar agor ar ddydd
Sadwrn taf a 3ydd dydd
Sadwrn pob mis) a chafodd
hen gelloedd y carcharonion
eu troi'n ystafelloedd
arddangos. Mae'n cynnwys
gwybodaeth am lolo, a
damau ffilm o'r gyfres
History of Wales gan
BBC*

SITE OF SCIENTIFIC SPECIAL INTEREST THE AGRICULTURAL COMMENTATOR AND FARMER **6**

This field is designated a Site of Scientific Special Interest because of its special grassland.

For *lolo*, Glamorgan was 'the paradise of Britain's land'.

As a peripatetic stonemason and a local patriot, he came to know every inch of the county. He knew every species of bird and flower, and prided himself on his skills as a horticulturalist and agriculturalist, having farmed himself for a time. He wrote extensively as an expert about the region's geological and farming patterns, as well as on rural life and customs, industry and urban development.

As a humanitarian *lolo* walked everywhere, even as far as London! As a humanitarian, he refused to ride a horse. Instead *lolo* travelled everywhere on foot – walking thirty miles in a day was a breeze for him – and he recorded what he saw in notebooks which became a mine of information about the social and economic features of Wales.



Cowbridge Town Hall / Neuadd Dref y Bont-faen

NEUADD DREF Y BONT-FAEN

YR ADEILADWR A'R PENSAER **5**

Ym 1782, lluniodd *Iolo* nifer o ddyluniadau trawiadol ar gyfer estyniad i Neuadd Dref Y Bont-faen. Ni fabwysiadwyd ei gynllun, ond parhaodd ei ddiddordeb brwd mewn trefsur, pensaernïaeth ac adeiladu. Ceir sawl enghraifft mewn eglwysi ledled y Fro o'i sgiliau arbennig fel saer marmor.

Defnyddiwyd Clwb Llyfrau'r Bont-faen gan *Iolo* i ddsbarthu llenyddiaeth ddiwinyddol a gwleidyddol, ond roedd llawer o bobl yn amheus iawn ohono, gan feddwl mai lledaenu syniadau gwrthryfelgar oedd ei unig ddiddordeb. Roedd *Iolo* ei hun o'r farn bod trigolion Y Bont-faen wedi magu '*much of the monkey character, with a smack of the fox, sly, cunning and thievish*'.

QR link to the film footage:

Linc QR i'r darnau ffilm:



Iolo travelled everywhere on foot...

Roedd Iolo yn cerdded i bobman...

SAFLE O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG Y SYLWEBYDD AR AMAETH **6**

Dynodwyd y cae hwn yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd ei laswelltir arbennig.

I *Iolo*, Morgannwg oedd '*paradwys tir Prydain*'. Fel saer maen crwydol a gwladgarwr lleol, daeth i adnabod pob modfedd o'r sir. Adwaenai bob rhywogaeth o aderyn a blodyn, ac ymfalchïai yn ei sgiliau fel garddwr ac amaethwr, ar ôl bod yn ffermio ei hun am gyfnod. Ysgrifennodd yn helaeth ar batrymau daearegol a ffermio'r ardal, yn ogystal ag ar fywyd ac arferion cefn gwlad, diwydiant a datblygiad trefol.

Roedd *Iolo* yn cerdded i bobman, cyn belled â Llundain! Fel dyngarwr, roedd yn gwrthod marchogaeth. Nid oedd yn ddim iddo gerdded deng milltir ar hagain y diwrnod gan gofnodi yr hyn a welai mewn llyfrau nodiadau. Datblygodd y rhain i fod yn archif o wybodaeth am nodweddion cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Iolo Morganwg walking / Iolo Morganwg yn cerdded



STALLING DOWN

THE ARCHITECT OF A NATION AND THE GORSEDD OF THE BARDS 7

He convinced scholars of his day that the Gorsedd was an old and authentic institution.

Llwyddodd i argyhoeddi ysgolheigion ei ddydd bod yr Orsedd yn sefydliad hynafol a dilys.

In a bid to strengthen Welsh national pride, *Iolo* founded the first Welsh national institution, the Gorsedd of the Bards of the Island of Britain. The first Gorsedd in Wales was held here in 1795, three years after the first moot on Primrose Hill, London (fig 1).

Iolo chose Stalling Down not only because of its geographical location but also because, so he claimed, it had hosted an 18-hour battle between Owain Glyndŵr's men and Henry IV's army in 1403 in which the Welsh leader had been victorious.

He convinced scholars of his day that the Gorsedd was an old and authentic institution. Not until the Edwardian period did it become clear that the first Gorsedd was actually held in 1792 and that this distinctive bardo-druidic version was the product of *Iolo's* overheated imagination.

In 1819, *Iolo* formally linked the Gorsedd with the Provincial Eisteddfod held in Carmarthen, an act which ultimately led to the National Eisteddfod as we know it today. He inducted members into the Gorsedd by tying different coloured ribbons – green (*Ovates*), blue (*Bards*) and white (*Druids*) – on their arms.

The Gorsedd is now an association whose members include poets, writers, musicians, artists and individuals who have made a contribution to Welsh language and culture.

During the National Eisteddfod week, five Gorsedd ceremonies are held, during which the winning poets are crowned and chaired, and a medal is awarded to the best prose writer. These colourful ceremonies, conducted in flowing robes and incorporating a ceremonial sword and a call for peace, bear the strong imprint of *Iolo's* ideas.



Fig / Ffig 1: Memorial plaque on Primrose Hill, London
Plac coffa ar Bryn Briallu, Llundain





Gorsedd ceremony / Seremoni'r Orsedd

BRYN OWAIN

SAER CENEDL A GORSEDD Y BEIRDD 7

Mewn ymdrech i gryfhau balchder y Cymry yn eu cenedl, sefydlodd *Iolo* sefydliad cenedlaethol cyntaf Cymru, 'Gorsedd Beirdd Ynys Prydain'. Cynhaliwyd Gorsedd gyntaf Cymru yma ym 1795, dair blynedd ar ôl y cyfarfod cyntaf ar Fryn y Briallu, yn Llundain (ffig 1).

Dewiswyd Bryn Owain gan *Iolo* oherwydd ei leoliad daearyddol ond hefyd, oherwydd y cynhaliwyd brwydr 18 awr yno, rhwng gwŷr Owain Glyndŵr a byddin Harri IV ym 1403, lle bu'r Cymry'n fuddugol – neu felly yr honnai *Iolo*.

Llwyddodd i argyhoeddi ysgolheigion ei ddydd fod yr Orsedd yn sefydliad hynafol a dilys. Ni ddaeth i'r amlwg tan y cyfnod Edwardaidd mai ym 1792 y cynhaliwyd yr Orsedd gyntaf mewn gwirionedd, ac mai ei ddychymyg gorfywiog ef a oedd yn gyfrifol am y fersiwn derwyddol-farddol hwn.

Ym 1819, cysylltodd *Iolo*'r Orsedd yn ffurfiol â'r Eisteddfod Daleithiol a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin, gweithred a arweiniodd yn y pen draw at yr Eisteddfod Genedlaethol fel rydym yn ei hadnabod heddiw. Urddodd yr aelodau trwy glymu rubanau o wahanol liwiau o amgylch eu breichiau – gwyrdd (*Ofyddion*), glas (*Beirdd*) a gwyn (*Derwyddon*).

Mae'r Orsedd bellach yn gymdeithas o feirdd, awduron, cerddorion, artistiaid ac unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad at iaith a diwylliant Cymru.

Mae'r Orsedd yn cynnal pum seremoni yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, pryd y caiff y beirdd buddugol eu coronni a'u cadeirio, ac y dyfernir medal i'r awdur rhyddiaith gorau. Mae syniadau *Iolo* yn gwbl amlwg yn y seremonïau lliwgar hyn, gyda'u gwisgoedd llaes, y cleddyf defodol a'r alwad am heddwch.





The Clump / Y Clwmp

THE CLUMP THE HUMANITARIAN 8

Iolo was deeply affected by cases of injustice and never forgot the experience of being confined to a debtors' prison in Cardiff (1786-7). He regularly petitioned on behalf of common people who had been unjustly sentenced to transportation or death by hanging. Although executions, as were viewed here, were a popular spectator sport in his day, *Iolo* prided himself on never having attended such gory events.

Likewise, he despised war and warmongering. In 1796 he called on the prime minister William Pitt to bring war with France to an end and to set up a League of Nations which would arbitrate between the nations.

Mothers used the expression '*See Caercady and die*' to warn their children if they misbehaved as Caercady House could be seen by the condemned from the gallows as they awaited their end. The last hangings took place in 1786.

BUSH INN THE POET AND FORGER 9

Iolo had a more profound and subtle knowledge of the Welsh bardic tradition than any of his contemporaries. He was a prolific poet in both Welsh and English, and had mastered both the strict and free metres of Welsh poetry.

Like Chatterton in England and Macpherson in Scotland, he was also a splendid literary forger. Poems which he attributed to the fourteenth-century poet Dafydd ap Gwilym were not discovered to be forgeries until a century after his death in 1826.



Bush Inn, St Hilary / Tafarn y Bush, Sain Hilari

In true Iolo tradition the Bush has a resident poet. This inn also serves as an ideal stop off point for refreshments or a speciality pie, and has a roaring fire on a cold day!


Yng ngwir draddodiad Iolo, mae gan y Bush fardd preswyl. Mae'r tŷ tafarn hwn hefyd yn fan delfrydol am seibiant ar gyfer llymmaid neu bastai flasus, a thân agored ar ddiwrnod oer!

TAFARN Y BUSH

Y BARDD A'R FFUGIWR 9

Roedd gan *Iolo* wybodaeth fwy trylwyr a chraff am draddodiad barddol Cymru nag unrhyw un o'i gyfoeswyr. Roedd yn fardd cynhyrchiol yn y Cymraeg a'r Saesneg, ac roedd wedi meistrolï mesurau caeth a rhydd.

Fel Chatterton yn Lloegr a Macpherson yn yr Alban, roedd hefyd yn ffugwr llenyddol gwych. Priodolodd rai cerddi i'r bardd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, Dafydd ap Gwilym, ac aeth canrif heibio wedi ei farwolaeth ym 1826 nes y daeth y ffugiadau hyn i'r amlwg.



10

Venture up to **LLANBLETHIAN / ST QUENTIN'S CASTLE** to learn more using the audio guide within the gatehouse and enjoy the views.

Ewch am dro i **GASTELL SAIN QUENTIN / LLANFLEIDDAN** i ddsygu mwy gan ddefnyddio'r canllaw sain yn y porthdy, ac i fwynhau'r golygfeydd.

Wild garlic in New Beaupré woods /
Garleg gwylt yng nghoedwig New Beaupré



View from the Clump / Yr olygfa o'r Clwmp

Y CLWMP

Y DYNGARWR 8

Câi achosion o anghyfiawnder effaith fawr ar *Iolo*, ac roedd y profiad o gael ei garcharu mewn carchar dyledwyr yng Nghaerdydd (1786–7) wedi ei serio ar ei gof am byth. Arferai ymgyrchu'n rheolaidd ar ran pobl gyffredin a oedd wedi cael eu dedfrydu'n anghyfiawn i gael eu halltudio neu eu crogi. Yn nyddiau *Iolo*, roedd pobl yn arfer mwynhau dod i'r fan hon, fel i fannau tebyg ledled y wlad, i wylïo pobl yn cael eu dienyddio. Roedd *Iolo*, ar y llaw arall, yn ymfalchïo nad oedd erioed wedi mynychu digwyddiad gwaedlyd o'r fath.

Yn yr un modd, roedd yn casáu rhyfel a rhyfelgarwch â chas perffaith. Ym 1796, galwodd ar y prif weinidog, William Pitt, ei roi terfyn ar y rhyfel gyda Ffrainc ac i sefydlu Cynghrair y Cenhedloedd a fyddai'n cyflafareddu rhwng y cenhedloedd.

Byddai mamau'n defnyddio'r dywediad '**See Caercady and die**' i rybuddio'u plant pan fyddent yn camymddwyn, gan y gallai pobl a oedd wedi'u condemnïo weld Tŷ Caercady oddi ar y groc bren wrth ddisgwyl am eu diwedd. Crogwyd y ddau olaf yn 1786.



THE EAGLES ACADEMY HIS CHILDREN 11

As the blue plaque notes (fig 1), the assembly room above the shop was once used as a private school called the Eagles Academy from 1795 to 1880.

Iolo's three surviving children, Margaret, Ann and Taliesin, were educated here despite the family's financial constraints. Taliesin, who became the apple of his father's eye, received a sound education at the school, and later set up his own highly successful educational establishment in Merthyr Tydfil from 1816 until his death in 1847.

In 1816 *Iolo* opened a milliner's shop for his daughters at Cefncribwr. Margaret wrote rather sentimental poetry and twenty-seven poems, including one to her father, survive in her hand.


Iolo's youngest daughter Elizabeth had died, aged three, in April 1793. *Iolo* walked all the way home from London with tears streaming down his face. Stricken with grief, he insisted on exhuming the body so that he could see his '*dearest Lilla*' for the last time.

The Welsh language primary school in Cowbridge, Ysgol *Iolo Morganwg*, is named in memory of *Iolo*.

*Stricken with grief, he insisted
on exhuming the body...*

*Yn llawn galar, mynnodd
ddatgladdu'r corff...*

By permission of the National Library of Wales / Trwy ganiatoll Llyfrgell Genedlaethol Cymru



*Iolo's original Stone Cutter's song
Copi gwreiddiol Iolo o Gân y Maensaeur*


THE BEAR HOTEL THE COWBRIDGE DRINKERS AND COLLECTOR OF SONGS 12

During his youth 'Neddy the Stonecutter', as locals called *Iolo*, could drink as heartily as the next man. The freemasons and stonemasons of Cowbridge used to meet in the Bear and doubtless he entertained them. But during his years in London he renounced alcohol and lived abstemiously for the rest of his life.

On returning to Cowbridge in 1795 he mocked the hard-drinkers of the town in verse. Indeed, when he was in one of his blackest moods he decried the people of Cowbridge as '*pitifully little in every thing but moral turpitude!*'

Iolo and the poet Robert Burns have much in common. Just as Burns could be called the first collector of Scottish song, so could *Iolo* be called the first collector of Welsh song. In addition to collecting traditional Welsh songs, *Iolo* could play the flute, compose and sing songs, hymns and psalms. He composed over 3000 Unitarian hymns during his lifetime.





Go into the Bear for an end of walk drink. See one of Iolo's poems on the wall and if you listen carefully or request it, you can hear a recording of Iolo's Stonecutter's song sung by Dr Ffion Mair Jones.

Ewch i westy'r Bear am lymaid ar ddiwedd y daith. Gallwch weld un o gerddi Iolo ar y wal ac os gwanedwch yn astud, neu os gofynnwch, cewch glywed recordiad o 'Gân y Maensaer' gan Iolo, yn cael ei chanu gan Dr Ffion Mair Jones.

GWESTY'R BEAR

YFWYR Y BONT-FAEN A CHASGLWR CANEUON 12

Yn ystod ei ieuencid, gallai 'Neddy'r Saer Maen', fel y gelwid ef gan y bobl leol, yfed cymaint â neb. Roedd seiri rhyddion a seiri meini Y Bont-faen yn arfer cyfarfod yn nhafarn y Bear ac mae'n sicr iddo eu diddanu. Ond rhoddodd y gorau i yfed alcohol yn ystod ei flynyddoedd yn Llundain, a bu'n llwyrwmrthodwr am weddill ei oes

Ar ôl dychwelyd i'r Bont-faen ym 1795, gwawdiai yfwyr mawr y dref yn ei gerddi. Yn wir, un tro pan oedd mewn hwyliau arbennig o ddrwg, dywedodd nad oedd pobl Y Bont-faen yn rhagori mewn dim ond 'moral turpitude'!

Mae gan Iolo a'r bardd Robert Burns lawer yn gyffredin. Yn yr un modd ag y gellid dweud mai Burns oedd y cyntaf i gasglu caneuon yr Alban, gellid dweud mai Iolo oedd y cyntaf i gasglu caneuon Cymru. Yn ogystal â chasglu caneuon traddodiadol ei wlad, gallai Iolo ganu'r fflwiwt, cyfansoddi a chanu caneuon, emynau a salmau. Cyfansoddodd dros 3000 o emynau Undodaidd yn ystod ei oes.

ACADEMI'R EAGLES

EI BLANT 11

Fel y mae'r plac glas yn ei nodi (ffig 1), arferai'r ystafell gyngynnull uwchben y siop gael ei defnyddio fel ysgol breifat o'r enw Eagles Academy rhwng 1795 a 1880.

Er bod y teulu'n brin o arian, cafodd y tri phlentyn a oroesodd, sef Margaret, Ann a Thaliesin, eu haddysgu yno. Derbyniodd Taliesin, a ddaeth yn gannwyll llygad ei dad, addysg dda yn yr ysgol, ac yn ddiweddarach agorodd ei sefydliad addysgol hynod lwyddiannus ei hun ym Merthyr Tudful, o 1816 hyd at ei farwolaeth ym 1847.

Ym 1816, agorodd Iolo siop hetiau i'w ferched yng Nghefncribwr. Cyfansoddai Margaret farddoniaeth a oedd braidd yn sentimental, ac mae saith ar hugain o gerddi, gan gynnwys un i'w thad, ar gael yn ei llawysgrifen.

Bu farw merch ieuengaf Iolo, Elizabeth, yn dair oed ym mis Ebrill 1793. Cerddodd Iolo'r holl ffordd adref o Lundain â dagrau'n powlio i lawr ei ruddiau. Yn llawn galar, mynnodd ddatgladdu'r corff fel y gallai weld ei 'Lilla annwyl' am y tro olaf.

Mae'r ysgol gynradd Gymraeg Y Bont-faen, Ysgol Iolo Morganwg, wedi ei enwi er cof am Iolo.



Fig / Ffig 1

WIDER TRAIL

1 Llantwit Major

St Illtud's Church is two minutes walking distance from the Town Hall in the old part of the town. See page 24/25

2 Boverton Place

Parking is adjacent to the Boverton Post Office where the ruin can be seen on the hill to the left of it. A blue plaque can be found on its boundary wall. It is privately owned so there is no public access to the grounds / ruin.

See page 26/27

3 Aberthaw, Old Harbour / The Leys The Trader

To get to the Old Harbour, park at Aberthaw opposite the Blue Anchor pub and walk to there (10 minutes) – see page 28/29 for detailed directions.

4 Flemingston See page 30/31

5 St Mary Church See page 32/33

6 Beaupré Castle The Romantic
Keep a look out for the Castle sign on the side of the road, immediately by it is a small lay-by, parking is limited to here. Before you climb over the stone stile in the lay-by into the field, look up and you'll see the Castle on the crest of the hill ahead of you. Once in the field walk gently up hill diagonally towards it through a few fields (about 10-15 minutes walk), and two stiles until you reach the boundary wall with a stone stile, go over this, then enter the Castle. The site is managed by CADW. See page 32/33

7 Llancafán and Pen-onn

See page 34

Y DAITH EHANGACH

1 Llanilltud Fawr

Mae Eglwys Illtud Sant yn ddwy funud o waith cerdded o Neuadd y Dref yn yr hen ran o'r dref. Gweler tudalennau 24/25

2 Plasty Trebefered

Gellir parcio nesaf at Swyddfa Bost Trebefered ac mae'r adfail i'w weld ar y bryn i'r chwith o'r fan honno. Ceir plac glas ar y wal derfyn. Mae'n eiddo preifaf, felly nid oes mynediad i'r cyhoedd at y tir / adfail. Gweler tudalennau 26/27

3 Aberddawan, Yr Hen Harbwr / Y Traeth Y Masnachwr


I gyrraedd yr Hen Harbwr, parciwch yn Aberddawan gyferbyn â thafarn y Blue Anchor a cherdded yno (10 munud) – gweler y cyfarwyddiadau manwl a'r dudalennau 28/29.

4 Trefflemin Gweler tudalennau 30/31

5 Llan-fair Gweler tudalennau 32/33

6 Castell y Bewpyr Y Rhamantydd
Cadwch olwg am yr arwydd ar gyfer y Castell ar ochr y ffordd. Ceir cilfan fach wrth ymyl yr arwydd, a dim ond yn y fan hon y cewch barcio. Cyn i chi ddringo dros y gamfa i'r cae, edrychwch i fyny ac fe welwch y Castell ar gopa'r bryn o'ch blaen. Ar ôl dringo i'r cae, cerddwch i fyny'r bryn yn lletraws tuag ato trwy ychydig o gaeau (tua 10-15 munud o gerdded), â'r nant i lawr y bryn ar y llaw dde. Ewch dros gamfa a cherddwch nes i chi gyrraedd y wal derfyn lle ceir camfa garreg arall. Ewch dros y gamfa hon ac i mewn i'r Castell. Rheolir y safle hwn gan CADW. Gweler tudalennau 32/33

7 Llancafán a Phennon Gweler tudalen 34



WIDER TRAIL Y DAITH EHANGACH:

www.illtudsgalileechapel.org.uk



LLANTWIT MAJOR THE ARCHAEOLOGIST **1**

...curiosity got the better of Iolo... he uncovered the giant's grave and discovered the fallen stone.

...aeth chwilfrydedd Iolo yn drech nag ef. Dadorchuddiodd fedd y cawr... gan ddarganfod y maen a oedd wedi cwympo.

Iolo had a love-hate relationship with Llantwit Major. He once derided it as 'a tottering town', but he was besotted with its history and his papers brim with accounts of its antiquities.

He claimed to have discovered many treasures there, the most significant of which was Abbott Samson's Pillar-cross, one of the oldest inscribed Christian monuments in Britain.

The circumstances of the discovery were extraordinary; Iolo had been told that many years before an ancient stone called the King's Stone had stood outside the church porch. A very tall (7ft 7in) 17 year old called Will the Giant had wished to be buried near this stone. His overlarge grave unfortunately caused the stone to fall into it – nearly killing some of the mourners – and was covered with earth. In 1789 curiosity got the better of Iolo. While stonecutting in the Churchyard he uncovered the giant's grave and discovered the fallen stone (fig 1).

Around 1800 Iolo produced a sketch map of Llantwit Major (fig 2). His favourite haunt was St Illtud's Church which contains examples of his work as a stonemason. Iolo was an accomplished remembrancer who deserves recognition as Glamorgan's first field archaeologist.

In the nave of the church is an example of Iolo's work: the wall-tablet in memory of Anthony Jones (fig 3). Iolo's daughter Margaret's grave can be seen outside the Galilee chapel door. A copy of Iolo's sketch map can be found inside the church. The church is open daily during daylight hours.



Fig / Ffig 3



Fig / Ffig 2'

LLANILLTUD FAWR YR ARCHAEOLEGYDD 1

Roedd *Iolo* wrth ei fodd â rhai agweddau ar Lanilltud Fawr, ac yn casáu rhai eraill. Difriodd y dref unwaith fel 'a tottering town', ond roedd wedi ei swyno gan hanes y dref ac mae ei bapurau'n llawn cofnodion o'i hynafiaethau.

Honnodd iddo ddarganfod trysorau lawer yno, a'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain oedd Croes Golofn yr Abad Samson, un o henebion arysgrifedig Cristnogol hynaf Prydain.


Roedd amgylchiadau'r darganfyddiad yn anhygoel. Dywedwyd wrth *Iolo* yr arferai maen hynafol o'r enw Maen y Brenin sefyll i tu allan i borth yr eglwys flynyddoedd lawer ynghynt. Roedd gŵr ifanc 17 mlwydd oed hynod dal (7 troedfedd 7 modfedd) o'r enw Wil y Cawr am gael ei gladdu ger y maen hwn. Yn anffodus, achosodd ei fedd enfawr i'r maen gwmpo i mewn iddo - gan bron â lladd rhai o'r galarwyr - a gorchuddiwyd y maen â phridd. Ym 1789, aeth chwilyfrydedd *Iolo* yn drech nag ef. Dadorchuddiodd fedd y cawr wrth dorri meini yn y fynwent, gan ddarganfod y maen a oedd wedi cwmpo (ffig 1).

Oddeutu 1800, lluniodd *Iolo* fap bras o Lanilltud Fawr (ffig 2). Ei hoff fan oedd Eglwys Sant Illtud, lle ceir enghreifftiau o'i waith fel saer maen. Roedd *Iolo* yn gofnadur medrus sy'n haeddu cael ei gydnabod fel archaeolegydd maes cyntaf Morgannwg.

Ceir enghraifft o waith *Iolo* yng nghorff yr eglwys, sef y llechen fur er cof am Anthony Jones (ffig 3). Mae bedd merch *Iolo*, Margaret, y tu allan i ddrws capel Galilea. Ceir copi o fap bras *Iolo* yn yr Eglwys. Mae'r eglwys ar agor bob dydd yn ystod golau dydd.



Fig / Ffig 1: Abbot Samson's Pillar –
Cross / Croes Golofn yr Abad Samson



Iolo's daughter, Margaret's grave / Bedd merch *Iolo*, Margaret

BOVERTON PLACE HIS MOTHER'S INFLUENCE 2



Original drawing of Boverton Place / Llun gwreiddol o Blasty Trebefered

...lolo's close relationship with his mother explains his complex psychological make-up...

... bod perthynas agos lolo â'i fam yn esbonio ei gyfansoddiad seicolegol cymhleth...



Boverton Place as it stands today / Plasty Trebefered heddiw

The Elizabethan mansion at Boverton commanded a special place in *Iolo's* imagination. His mother, Ann Matthew, had been raised there from the age of nine by her aunt. She was a proud lady, acutely conscious of her gentry roots even though she married Edward Williams, a common stonemason, in 1744.

She was a major influence on *Iolo's* feelings towards the past and on his development as a lover of prose, poetry and song. She filled his head with tales of the glorious literary traditions of Tir Iarll and the thriving druido-bardic tales popular with aristocratic families in upland Glamorgan.

Indeed, some critics argue that *Iolo's* close relationship with his mother explains his complex psychological make-up: his egotism, inferiority complex and tendency to romanticise the past.

Iolo was the eldest of four sons and he was showered with attention by his doting mother who believed that he was destined for great things. When she died in 1770, *Iolo* was overcome with grief and even 20 years later wrote a sonnet in her memory:

...OH, MY LOST MOTHER! – STILL I WEEP FOR THEE –
SAFE IN THE CARE I PASS'D THROUGH FEEBLE YOUTH;
UNSCHOOL'D BESIDE, I, TUTOR'D AT THY KNEE,
CAUGHT FROM THY LIPS THE SACRED LORE OF TRUTH...

PLASTY TREBEFERED DYLANWAD EI FAM **2**

Roedd gan y plasty Elisabethaidd yn Nhrebefered le arbennig yn nychymy *Iolo*. Magwyd ei fam, Ann Matthew, yno gan ei modryb, ers pan oedd yn naw oed. Roedd yn wraig falch, ac yn ymwybodol iawn o'i gwreiddiau bonheddig er iddi brodi'r saer maen cyffredin, Edward Williams, ym 1744.

Bu ei fam yn ddylanwad mawr ar agwedd *Iolo* tuag at y gorffennol ac ar ei gariad at ryddiaith, barddoniaeth a chân. Llenwodd ei ben â straeon am draddodiadau llenyddol gogoneddus Tir Iarll a'r chwedlau derwyddol-farddol a oedd yn boblogaidd ymhlith teuluoedd bonheddig ucheldir Morgannwg.

Yn wir, mae rhai beirniaid yn dadlau bod perthynas agos *Iolo* â'i fam yn esbonio ei gyfansoddiad seicolegol cymhleth: ei egotistiaeth, ei ymdeimlad o fod yn israddol a'i dueddiad i ramantu'r gorffennol.

Iolo oedd yr hynaf o bedwar mab a chafodd holl sylw ei fam. Roedd wedi gwirioni arno, ac o'r farn y byddai'n cyflawni pethau mawr. Pan fu farw ei fam ym 1770, roedd *Iolo* yn llawn galar. Daliai i alaru yn y soned a ysgrifennodd er cof amdani 20 mlynedd yn ddiweddarach.



Directions (10 minute / half mile walk): park in the car park across the road from the Blue Anchor pub in East Aberthaw. At the back of the car park to the left, join Well Road, walk under the railway bridge and turn left onto the way-marked footpath, which takes you along parallel to the railway line. You'll come out by the Old Lime Works and the nature reserve.

Cyfarwyddiadau (10 munud / hanner milltir i gerdded): parciwch yn y maes parcio gyferbyn â thafarn y Blue Anchor yn Nwyrain Aberddawan. Yng nghefn y maes parcio, ar y chwith, ymunwch â Well Road, cerddwch o dan bont y rheilffordd a throwch i'r chwith ar y llwybr troed sydd wedi'i nodi. Bydd hwn yn mynd â chi yn gyfochrog â'r rheilffordd. Fe ddewch allan wrth ymyl yr hen weithfeydd calch a'r warchodfa natur.

ABERTHAW, OLD HARBOUR / THE LEYS

THE TRADER 3

Aberthaw is best known for its coal-fired power station, its cement works and the Blue Anchor pub, but for *Iolo* its enchantment lay in its thriving port which opened up routes to the wider world. *Iolo* thought of himself as a citizen of the world and often dreamed of emigrating to America or the Caribbean in search of a better life.

